Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Effaith cynlluniau trosglwyddo

Arfarnu'r defnydd o gynlluniau trosglwyddo gan bartneriaethau ysgolion cynradd-uwchradd i wella ansawdd dysgu a safonau

Mehefin 2008

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **2**

Prif ganfyddiadau **5**

Argymhellion **8**

Ansawdd a chynnwys cynlluniau trosglwyddo **9**

Agweddau craidd ar gynllunio trosglwyddo **12**

Rheoli a chydlynu trosglwyddo 12
Cynllunio'r cwricwlwm 13
Addysgu a dysgu 15
Asesu, monitro ac olrhain 17
Arfarnu effaith cynlluniau trosglwyddo 18

Agweddau dewisol ar gynllunio trosglwyddo **19**

Cysylltiadau bugeiliol i fodloni anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion 19
Rhannu gwybodaeth am ddisgyblion 19
Cyfathrebu anghenion dysgu disgyblion 20
Sicrhau parhad mewn Cymraeg 20
Trefniadau trosglwyddo o ysgolion cynradd sy'n bwydo nad ydynt yn rhai dynodedig 21

Effaith cynlluniau trosglwyddo **22**

Cymorth awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio trosglwyddo **23**

Cynnwys disgyblion, rhieni a llywodraethwyr **25**

Barn disgyblion ar drosglwyddo **27**

Cyflwyniad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi cyngor i ymateb i gylch gwaith Gweinidogol blynyddol Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad yn arfarnu effaith gychwynnol y cynlluniau trosglwyddo a'r defnydd a wna partneriaethau ysgolion cynradd-uwchradd ohonynt i wella ansawdd dysgu a safonau. Mae'n cynnwys astudiaethau achos o arfer dda mewn meysydd allweddol.

2 Mae ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner yn defnyddio cynlluniau trosglwyddo i ffurfioli eu trefniadau i weithio gyda'i gilydd ar faterion cwricwlwm, dysgu ac asesu sy'n ymwneud â'r sector addysg 7-14.

3 Mae'r adroddiad hwn:

- yn edrych ar ansawdd cynlluniau trosglwyddo;
- yn nodi'r ffactorau allweddol sy'n ysgogi gwelliant;
- yn nodi meysydd ar gyfer rhagor o waith; ac
- yn gwneud argymhellion ynglŷn â sut y dylid datblygu'r gwaith hwn yn y dyfodol.

4 Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, uwch reolwyr a staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a swyddogion awdurdodau addysg lleol ac ymgynghorwyr. Gallai'r adroddiad hefyd fod o ddiddordeb i sefydliadau sy'n hyfforddi athrawon ac i awdurdodau esgobaethol eglwysig.

Cefndir

5 Yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' (2001) a'i olynydd, 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' (2006), amlinellodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymrwymiad i wella parhad a dilyniant mewn dysgu ar gyfer pob disgybl sy'n symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.

6 Yn 2006, fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ddefnyddio pwerau Cymru yn unig yn adran 198 Deddf Addysg 2002, gyflwyno gofyniad i ysgolion uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd a gynhelir sy'n eu bwydo lunio cynlluniau trosglwyddo ar y cyd i gefnogi'r broses o drosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae Adran 198 hefyd yn nodi y dylid ystyried arweiniad y Cynulliad wrth bennu a ddylid ystyried bod ysgol benodol yn "ysgol gynradd sy'n bwydo" mewn perthynas ag ysgol uwchradd benodol.

7 Mae'r rheoliadau a'r gofyniad statudol i lunio cynlluniau trosglwyddo wedi'u hamlinellu yng Nghylchlythyr 30/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Arweiniad ar baratoi cynlluniau trosglwyddo cyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3'. Roeddent yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion roi cynlluniau trosglwyddo cychwynnol ar waith erbyn 1 Medi 2007 i gefnogi disgyblion Blwyddyn 6 sy'n symud i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2008.

8 Er 2002, mae Estyn wedi darparu cyfres o adroddiadau a chyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi sefydlu'r dystiolaeth ar gyfer gweithredu i wella cynllunio trosglwyddo. Rydym wedi adrodd, er bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi gwella rhai agweddau ar drosglwyddo, yn enwedig cymorth bugeiliol, dim ond rhai ysgolion cynradd ac uwchradd sydd â threfniadau cynhwysfawr i sicrhau trefniadau trosglwyddo effeithiol, gan gynnwys:

- dulliau cytûn ar gyfer rheoli a chydlynu trosglwyddo gyda phartneriaid;
- cynllunio cwricwlwm ar y cyd i sicrhau parhad a dilyniant mewn dysgu;
- trefniadau i gyflawni parhad mewn addysgu a dysgu sy'n adeiladu ar ddulliau ysgolion cynradd;
- ffyrdd o gyflawni cysondeb mewn asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn cyrhaeddiad blaenorol; a'r
- ffyrdd o arfarnu effaith y trefniadau trosglwyddo ar safonau.

9 O ganlyniad, mae disgyblion yn aml yn cael eu gadael ar ôl pan fyddant yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd oherwydd nad ŷdynt yn cael eu haddysgu mewn modd sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd.

10 Mae Cylchlythyr 30/2006 yn rhoi arweiniad manwl i ysgolion ac awdurdodau lleol ar y gofynion statudol ar gyfer cynlluniau trosglwyddo ac arfer dda wrth wella darpariaeth ar gyfer dysgwyr pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae Llywodraeth

Cynulliad Cymru wedi trefnu bod adnoddau ar gael yn y Gronfa Ysgolion Gwell[1] i wella parhad a dilyniant mewn dysgu ar gyfer disgyblion sy'n symud o gyfnod allweddol 1 ac yn symud rhwng cyfnodau allweddol. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trefnu bod cyllid ychwanegol o £5 miliwn ar gael i awdurdodau addysg lleol (AALlau) yn 2006-2009 trwy grant trosglwyddo cyfnodau allweddol 2-3. Mae'r grant trosglwyddo hwn yn cefnogi prosiectau arloesol ac enghreifftiol sy'n canolbwyntio ar elfennau allweddol ar gynlluniau trosglwyddo.

11 Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar gyhoeddiadau eraill gan Estyn, gan gynnwys:

- Trawsnewid ysgolion (Estyn, 2007);
- Adolygu cyfraniad y rhaglen Anelu at Ragoriaeth at godi safonau yng nghyfnod allweddol 3, (Estyn, Tachwedd 2006);
- Argymhellion ar weithredu darpariaethau trosglwyddo yn Neddf Addysg 2002 (Estyn, 2004);
- Symud Ymlaen…Trosglwyddo effeithiol o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 (Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004);
- Symud Ymlaen…Gwella dysgu, (Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004);
- y pecyn fideo dwyieithog, Codi safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng nghyfnod allweddol 3 (BBC Cymru/Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004);
- y pecyn fideo dwyieithog, Codi safonau: Trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 (BBC Cymru/Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004);
- Pontio'r Bwlch – Datblygu a defnyddio unedau pontio i gefnogi trosglwyddo effeithiol o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 (ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru/Estyn, 2004);
- Arolwg o'r Gymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 ac wrth drosglwyddo (Estyn 2004);
- y pecyn fideo dwyieithog, Codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd yng nghyfnod allweddol 3 (BBC Cymru/Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2002); ac
- Anelu at ragoriaeth yng nghyfnod allweddol 3 (Estyn 2002; ailgyhoeddwyd 2004).

[1] Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn rhoi cymorth wedi'i dargedu i awdurdodau lleol ac ysgolion i ddatblygu mentrau newydd ac arloesedd i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

12 Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- adroddiadau arolygu Estyn o ysgolion cynradd ac uwchradd a arolygwyd er mis Medi 2007;
- cyfweliadau â swyddogion sy'n gyfrifol am wella ysgolion mewn wyth AALl;
- cyfweliadau â phenaethiaid, cydlynwyr trosglwyddo, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion Blwyddyn 7 mewn wyth o bartneriaethau ysgolion cynradd-uwchradd; ac
- archwilio dogfennaeth a ddarparwyd gan ysgolion ac AALlau, gan gynnwys 50 o gynlluniau trosglwyddo.

Prif ganfyddiadau

13 At ei gilydd, mae'r genhedlaeth gyntaf o gynlluniau trosglwyddo tair blynedd yn bodloni anghenion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae cynlluniau yn cynnwys gwybodaeth am y modd y mae ysgolion yn bwriadu gwella trefniadau yn y pum agwedd graidd ar drosglwyddo. Mae bron pob un o'r cynlluniau hefyd yn cynnwys trefniadau mewn meysydd dewisol, fel cysylltiadau bugeiliol. Roedd llawer o ysgolion eisoes wedi bodloni rhai o'r gofynion cyn iddynt ddod yn statudol ym mis Medi 2007.

14 Fodd bynnag, mae cynlluniau trosglwyddo yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd. Mae'r rhan fwyaf yn foddhaol o leiaf ac mae rhai yn dda iawn. Mae'r clystyrau[2] o ysgolion sydd â'r cynlluniau gorau yn gwybod beth y maent wedi'i gyflawni hyd yn hyn ac maent wedi nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer gwella y maent yn bwriadu mynd i'r afael â nhw dros y cyfnod tair blynedd rhwng 2007 a 2010. Mae eu cynlluniau trosglwyddo yn rhan annatod o'u hagenda ar gyfer gwella ysgolion ac yn cynnwys canlyniadau mesuradwy ar gyfer dysgwyr.

15 Dyma'r diffygion cyffredin mewn llawer o gynlluniau trosglwyddo:

- nid ydynt yn ddigon arfarnol;
- nid ydynt yn ddigon penodol i lywio cynllunio dros gyfnod o dair blynedd;
- nid ydynt yn cynnwys, lle bo'n briodol, mentrau cenedlaethol na lleol, er enghraifft, prosiectau sy'n cael cyllid RHAGORI[3];
- maent yn canolbwyntio gormod ar brosesau a dim digon ar ganlyniadau; ac
- nid ydynt yn galluogi'r clwstwr i fesur effaith gweithredu wedi'i gynllunio.

Cynllunio, rheoli a chydlynu trosglwyddo

16 Mae gan y rhan fwyaf o glystyrau drefniadau da i reoli a chydlynu trosglwyddo, er nad yw rhai cydlynwyr trosglwyddo yn cael digon o amser i gyflawni'r rôl fel y mae wedi'i hamlinellu yn y cynllun trosglwyddo. Nid yw ysgolion cynradd ac uwchradd bob amser yn bartneriaid cyfartal wrth gynllunio trosglwyddo. Mae hyn yn golygu nad yw clystyrau yn aml yn rhoi ystyriaeth ddigonol i drefniadaeth y cwricwlwm ysgol gynradd pan fyddant yn cynllunio'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3.

17 Er bod argymhelliad y dylai ysgolion ymgynghori'n eang wrth baratoi'r cynllun, nifer fach iawn o ysgolion wnaeth hyn yn ddigon cynnar neu mewn modd a oedd yn galluogi rhieni a disgyblion i ddylanwadu ar y cynllun trosglwyddo. Mae llawer o gyrff llywodraethol wedi cymeradwyo cynllun trosglwyddo eu clystyrau ond nid yw'r rhan fwyaf yn ddigon gwybodus i fonitro'r modd y caiff ei weithredu na'i effaith.

---

[2] Mae AALlau yn defnyddio gwahanol dermau i ddisgrifio grwpiau o ysgolion sy'n cynnwys yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Mae'r termau hyn yn cynnwys 'clystyrau', 'dalgylchoedd', 'consortia' a 'theuluoedd o ysgolion'. I sicrhau cysondeb, defnyddir y term 'clwstwr' yn y ddogfen hon.

[3] Menter Llywodraeth Cynulliad Cymru yw RHAGORI i Godi Cyrhaeddiad a Safonau Unigol mewn Addysg. Mae ysgolion lle mae gan dros 20% o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim yn cael cyllid ychwanegol i helpu disgyblion y mae eu cyflawniad yn isel i wneud yn well.

Cynllunio'r cwricwlwm

18 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu rhai agweddau ar barhad y cwricwlwm, gan gynnwys cynllunio unedau a chynlluniau gwaith sy'n rhychwantu cyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r gwaith hwn wedi helpu cyflymu cynnydd disgyblion, ond mae diffyg her o hyd ym Mlwyddyn 7 mewn rhai pynciau mewn llawer o ysgolion. Roedd yr arweiniad yn awgrymu y dylai ysgolion ystyried a oes angen gweithredu i wella parhad ieithyddol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o gynlluniau trosglwyddo sy'n cynnwys manylion am drefniadau ysgolion i wella parhad ieithyddol yn y Gymraeg pan fydd disgyblion yn symud i ysgolion uwchradd.

19 Nifer fach iawn o ysgolion uwchradd sydd wedi ystyried cynnig dull mwy integredig ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm sy'n adeiladu ar y ffordd y mae disgyblion yn dysgu yn yr ysgol gynradd.

20 Mae llawer o gynlluniau trosglwyddo yn nodi bod angen datblygu medrau ar draws y cwricwlwm yn fwy cyson. Fodd bynnag, nifer fach o gynlluniau sy'n esbonio sut y gwneir hyn. Nid oes gan ddigon o glystyrau gynlluniau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd i ystyried gorchmynion diwygiedig y cwricwlwm cenedlaethol gyda'i gilydd, y fframwaith medrau neu ddogfennau cysylltiedig ar wella dysgu.

Addysgu a dysgu

21 Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau trosglwyddo yn nodi bod angen gwneud addysgu a dysgu yn fwy diddorol a heriol. Mae arsylwi cymheiriaid, lle mae athrawon cynradd ac uwchradd yn arsylwi gwersi yn ysgolion ei gilydd, wedi arwain at nifer o fentrau llwyddiannus i wella addysgu ac asesu ar gyfer dysgu. Nodwedd allweddol ar y cynlluniau trosglwyddo gorau yw'r defnydd o hyfforddiant mewn swydd ar sail clwstwr fel bod technegau addysgu effeithiol yn cael eu rhannu a'u defnyddio'n helaeth.

22 At ei gilydd, mae athrawon uwchradd yn fwy ymwybodol o anghenion dysgu disgyblion pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau trosglwyddo yn rhoi digon o sylw i fodloni anghenion dysgu grwpiau penodol o ddysgwyr. Pan na fydd disgyblion unigol yn cael cynnig y cymorth sydd ei angen arnynt i gael mynediad i gwricwlwm Blwyddyn 7 neu fod y disgyblion mwy abl yn cael gwaith ailadroddus, lefel isel, mae hyn yn arwain at ymddieithrio ac amgyffrediad ymhlith disgyblion nad yw gwersi yn ddefnyddiol nac yn ddiddorol.

Asesu, monitro ac olrhain

23 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi dechrau asesu a safoni gwaith disgyblion gyda'i gilydd mewn un neu fwy o'r pynciau craidd. Mae llawer o glystyrau hefyd wedi dechrau cynhyrchu portffolios o waith disgyblion sy'n rhoi enghreifftiau o gyflawniad ar lefelau gwahanol. Nid yw mwyafrif y cynlluniau trosglwyddo yn dangos sut bydd yr arfer effeithiol hon yn cael ei hymestyn yn unol â chyflwyno gofynion statudol yn ystod 2008-2010.

24 Mae'r cyfleoedd ar gyfer safoni asesiadau athrawon yn amrywio'n rhy eang. Prin yw'r AALlau sydd â strategaethau i sicrhau cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon ar draws eu hysgolion cynradd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

25 Mae gan bron pob un o'r clystyrau systemau da i drosglwyddo data asesu ac mae pob ysgol uwchradd yn defnyddio ystod dda o ddata i olrhain cynnydd disgyblion trwy gyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, nid yw llawer o adrannau uwchradd yn ei ddefnyddio i gynllunio ymyriad amserol ar gyfer disgyblion y mae eu cynnydd yn rhy araf, er enghraifft, disgyblion sy'n cael anhawster â medrau sylfaenol, yn enwedig bechgyn, neu ddisgyblion sydd wedi cael cymorth ychwanegol yn yr ysgolion cynradd trwy raglenni a ariennir gan RHAGORI.

Arfarnu effaith cynlluniau trosglwyddo

26 Mae pob cynllun trosglwyddo yn datgan pryd fydd y cynllun yn cael ei adolygu a chan bwy. Mae trefniadau da i fonitro mentrau gwella, ond ychydig o fanylder ar sut bydd eu heffaith yn cael ei harfarnu o ran canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr. Mae hwn yn ddiffyg pwysig ym mwyafrif y cynlluniau trosglwyddo. Mae meini prawf llwyddo mewn llawer o gynlluniau yn cyfeirio at gwblhau gweithgareddau wedi'u cynllunio yn hytrach nag at eu heffaith ar ansawdd y dysgu neu gynnydd a safonau disgyblion. Nid yw ysgolion wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r math o wybodaeth y bydd angen iddynt ei chasglu i arfarnu effeithiolrwydd ac effaith cynlluniau trosglwyddo.

Effaith cynlluniau trosglwyddo

27 Mae effaith cynlluniau trosglwyddo er mis Medi 2007 yn amrywio yn ôl faint o waith yr oedd clystyrau eisoes wedi'i wneud cyn i'r cynlluniau ddod yn ofyniad statudol. Mewn clystyrau lle mae ysgolion eisoes wedi gweithio gyda'i gilydd, mae llawer o welliannau eisoes ar waith a cheir tystiolaeth o'u heffaith gadarnhaol ar gynnydd a safonau disgyblion. Megis dechrau y mae rhai clystyrau wrth wella trosglwyddo, ac nid oes modd arfarnu effaith benodol cynlluniau trosglwyddo eto oherwydd bod y garfan gyntaf o ddisgyblion y mae rheoliadau trosglwyddo yn berthnasol iddynt ym Mlwyddyn 6 o hyd.

Cymorth awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio trosglwyddo

28 Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol yn cefnogi trosglwyddo effeithiol. Mae gan bob AALl ddealltwriaeth dda o gynlluniau trosglwyddo ysgolion ond mae maint y cymorth a ddarperir gan AALlau yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau. Mae gan rai AALlau bolisïau ac arfer wedi'u datblygu'n dda ar gyfer gwella trosglwyddo, ond nid yw'r rhan fwyaf o AALlau yn monitro'r broses o gynllunio trosglwyddo na chanlyniadau yn ddigon trylwyr. Mae mwyafrif y clystyrau yn ansicr ynglŷn â sut y byddant yn ariannu gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn olaf y cynllun trosglwyddo cyfredol yn 2009-2010.

Barn disgyblion ar drosglwyddo

29 Mae disgyblion Blwyddyn 7 yn meddwl bod athrawon a gweithgareddau trosglwyddo wedi eu paratoi yn dda ar gyfer eu hysgol newydd. Mae barn disgyblion yn awgrymu bod llawer o weithgareddau trosglwyddo yn gwella eu profiadau dysgu ond maent yn ailadrodd gwaith neu'n gwneud gwaith sy'n rhy hawdd iddynt mewn rhai gwersi.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

A1 sicrhau bod cynlluniau trosglwyddo yn cynnwys amcanion clir a blaenoriaethau penodol ar gyfer gwella yn y tymor byr a'r tymor hir;

A2 sicrhau bod cynlluniau trosglwyddo yn cynnwys blaenoriaethau cenedlaethol a lleol;

A3 sicrhau bod modd arfarnu effaith y cynllun gyda chyfeiriad at welliannau yn nysgu a safonau cyflawniad disgyblion;

A4 ystyried mewn clystyrau orchmynion diwygiedig y cwricwlwm cenedlaethol, y fframwaith medrau a dogfennau cysylltiedig i sicrhau cysondeb o ran dull ar gyfer gweithredu gofynion newydd ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3;

A5 ystyried cynnig dull mwy integredig ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 sy'n adeiladu ar y ffordd y mae disgyblion yn dysgu yn yr ysgol gynradd;

A6 rhoi blaenoriaeth i asesu grwpiau clwstwr a safoni gwaith disgyblion yn unol â chyflwyno gofynion statudol yn ystod 2008-2010;

A7 rhoi mwy o sylw mewn cynlluniau trosglwyddo i fodloni anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys disgyblion mwy abl a dawnus, bechgyn a disgyblion sydd â medrau sylfaenol gwael; a

A8 ffurfioli trefniadau i ystyried barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn llawn, pan fyddant yn adolygu eu cynlluniau trosglwyddo.

Dylai awdurdodau lleol:

A9 sicrhau bod trosglwyddo yn cael lle amlwg iawn yn eu gwaith ar wella ysgolion;

A10 monitro ansawdd ac effaith cynlluniau trosglwyddo yn agosach; a

A11 rhoi cymorth i glystyrau i wella cynlluniau trosglwyddo sy'n cynnwys diffygion.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A12 monitro ac arfarnu'r broses o gyflwyno'r gofynion statudol ar gyfer asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;

A13 trefnu bod cyllid ar gael yn y Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer clystyrau i weithredu eu cynllun trosglwyddo yn 2009-2010; ac

A14 adolygu effaith cynlluniau trosglwyddo yn 2009-2010 i arfarnu eu heffaith yn y tymor hwy.

Ansawdd a chynnwys cynlluniau trosglwyddo

30 At ei gilydd, mae'r cynlluniau trosglwyddo tair blynedd cyntaf yn bodloni gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Maent yn cynnwys gwybodaeth am y modd y mae ysgolion yn bwriadu atgyfnerthu a gwella eu trefniadau yn y pum agwedd graidd ar drosglwyddo, sef:

- rheoli a chydlynu'r broses o drosglwyddo disgyblion o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo i'r ysgol uwchradd;
- parhad cynllunio'r cwricwlwm;
- parhad mewn addysgu a dysgu;
- parhad mewn asesu, monitro ac olrhain cynnydd disgyblion; a
- monitro ac adolygu'r cynllun ar gyfer asesu ei effaith ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol uwchradd ac ystyried sut y gellir rheoli'r broses drosglwyddo yn well.

31 Bron yn ddieithriad, mae cynlluniau trosglwyddo hefyd yn cynnwys gwybodaeth am feysydd dewisol, er enghraifft,

- cysylltiadau bugeiliol i fodloni anghenion personol a chymdeithasol disgyblion yn y cyfnod trosglwyddo;
- rhannu gwybodaeth am gyflawniadau, cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion sy'n ategu'r gofynion statudol presennol a fodlonwyd trwy'r System Drosglwyddo Gyffredin;
- cyfathrebu anghenion dysgu disgyblion unigol; a
- darpariaeth ar gyfer ysgolion cynradd sy'n bwydo sy'n wahanol i'r ddarpariaeth ar gyfer yr ysgolion cynradd eraill sy'n bwydo.

32 Mae ansawdd y rhan fwyaf o'r cynlluniau trosglwyddo o leiaf yn foddhaol ac ansawdd rhai ohonynt yn dda iawn. At ei gilydd, maent yn ffurfioli trefniadau presennol ac yn nodi meysydd priodol i'w gwella. Fodd bynnag, mae amrywiadau sylweddol yn eu hansawdd.

33 Er bod yr arweiniad yn ei gwneud yn glir nad oes fformat penodol ar gyfer cynllun trosglwyddo, mae'r rhan fwyaf o glystyrau wedi mabwysiadu'r templed a gynigir fel enghraifft yn arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, neu fersiynau tebyg y mae AALlau wedi'u darparu, fel y model ar gyfer eu cynlluniau trosglwyddo eu hunain. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi copïo'r model yn hytrach na'i addasu i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol eu clystyrau. O ganlyniad, mae llawer o gynlluniau trosglwyddo yn rhy gyffredinol ar gyfer cynllunio gwelliannau penodol dros y cyfnod tair blynedd rhwng 2007 a 2010.

34 Mae'r rhan fwyaf o'r clystyrau wedi cynllunio gwaith ar gyfer 2007-2008 yn fanylach. Mae ansawdd y cynllunio tymor byr hwn, sy'n aml ar ffurf cynllun datblygu, yn well. Mae clystyrau wedi nodi camau priodol, tasgau, cyfrifoldebau a graddfeydd amser, ac mewn rhai achosion, costau a ffynhonnell y cyllid.

35 Nifer fach iawn o glystyrau sydd wedi cynnal arfarniad trylwyr o effaith y trefniadau trosglwyddo cyfredol ar ansawdd dysgu a safonau. Mae'r clystyrau hyn yn gwybod beth a gyflawnwyd hyd yn hyn ac wedi nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer gwella.

36 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio'r diwrnodau hyfforddiant mewn swydd ychwanegol yn 2006-2007 a 2007-2008 i weithio gyda'i gilydd mewn clystyrau i wella'r trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Defnyddiwyd y diwrnodau hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol lle mae athrawon cynradd ac uwchradd wedi gweithio gyda'i gilydd i:

- baratoi cynlluniau gwaith sy'n rhychwantu Blynyddoedd 6 a 7;
- cytuno ar welliannau i ddulliau addysgu ac asesu;
- cynllunio ffyrdd o ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm; a
- safoni asesu a chynhyrchu portffolios gwaith sy'n rhoi enghreifftiau o gynnydd a chyflawniad ym mhynciau'r cwricwlwm cenedlaethol.

Astudiaeth achos 1

Cynllunio trosglwyddo effeithiol

Mewn un clwstwr mawr o ysgolion yn ne Cymru, mae'r cynllun trosglwyddo yn amlinellu ei nodau, ei amcanion, ei flaenoriaethau ar gyfer gwella, a'i linellau atebolrwydd yn glir a sut bydd y clwstwr yn arfarnu effaith y cynllun ar ansawdd dysgu a safonau.

Mae gan y clwstwr ystod eang o ddeunydd y mae'n ei ddefnyddio at ddibenion trosglwyddo. Mae'r deunydd ynghlwm wrth y cynllun trosglwyddo. Mae gan bob athro gopi. Mae'r deunydd yn cynnwys:

- y map cwricwlwm cytûn o destunau y mae pob ysgol yn eu haddysgu ym mhob pwnc rhwng Blwyddyn 5 a Blwyddyn 8;
- copi o'r prosiect pontio y mae pob ysgol yn ei ddefnyddio i ddatblygu medrau creadigol disgyblion;
- y prosiect trawsgwricwlaidd sydd wedi'i drefnu am bedair awr yr wythnos ym Mlwyddyn 7 i ddatblygu medrau meddwl a dysgu disgyblion;
- gweithdrefnau i drosglwyddo gwybodaeth ac olrhain cynnydd disgyblion; a
- holiaduron sy'n cael barn staff, disgyblion a rhieni.

Mae gan y clwstwr raglen gyffredin o hyfforddiant mewn swydd a chyfarfodydd ar gyfer 2006-2007 a 2007-2008 i wella trosglwyddo. Mae'r rhaglen yn adlewyrchu chwe blaenoriaeth arweiniad Cronfa Ysgolion Gwell Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn allweddol, blaenoriaethau'r clwstwr. Yn 2007-2008, canolbwyntiodd yr hyfforddiant ar strategaethau addysgu effeithiol. Yn 2008-2009, mae'r clwstwr yn bwriadu datblygu dull cyffredin ar gyfer datblygu ac olrhain medrau disgyblion ar draws pob pwnc yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

Mae gwaith prosiect yn cynnwys ymweld ag ysgolion disglair, cynllunio ar y cyd ar gyfer datblygu medrau meddwl, trefnu ac ymchwilio, a llunio tasgau cyffredin ar gyfer asesu a safoni mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r prosiectau hyn yn enghreifftiau da o'r ffordd y mae'r grŵp llywio yn nodi blaenoriaethau ac yn targedu gweithgareddau i fodloni anghenion disgyblion ac athrawon.

37 Fodd bynnag, ar draws ac mewn AALlau, mae clystyrau o ysgolion mewn gwahanol gyfnodau yn gwella trosglwyddo. Dyma'r diffygion cyffredin mewn llawer o gynlluniau trosglwyddo:

- nid ydynt yn ddigon arfarnol;
- nid ydynt yn ddigon penodol i lywio cynllunio dros gyfnod o dair blynedd;
- nid ydynt yn cynnwys mentrau Llywodraeth Cynulliad ac AALlau, er enghraifft, safoni asesiadau athrawon, rhaglenni a ariennir gan Sgiliau Sylfaenol Cymru, neu brosiectau a ariennir gan RHAGORI;
- maent yn canolbwyntio gormod ar brosesau a dim digon ar ganlyniadau; ac
- nid ydynt yn galluogi'r clwstwr i fesur effaith gweithredu a gynlluniwyd ar ansawdd dysgu a safonau cyflawniad.

Agweddau craidd ar gynllunio trosglwyddo

Rheoli a chydlynu trosglwyddo

38 Mae ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo wedi gweithio gyda'i gilydd ers sawl blwyddyn ar drefniadau bugeiliol sy'n helpu disgyblion i deimlo'n hyderus yn gymdeithasol ac yn emosiynol pan fyddant yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn ychwanegol, yn enwedig yn y pum mlynedd diwethaf, mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gweithio ar fentrau ar y cyd i wella agweddau ar y cwricwlwm, dysgu ac asesu ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3. O ganlyniad, roedd llawer o ysgolion eisoes wedi bodloni rhai o ofynion y cynlluniau trosglwyddo cyn i gynlluniau trosglwyddo ddod yn ofyniad statudol ym mis Medi 2007.

39 Yn 2006-2007, sefydlodd y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo grwpiau llywio i ddatblygu eu cynlluniau trosglwyddo. Mae grwpiau llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r ysgolion partner neu rai ohonynt. Mae gan y rhan fwyaf o'r grwpiau llywio gyfrifoldeb i lunio'r cynllun trosglwyddo ac maent fel arfer yn monitro'r gweithgareddau sy'n ategu'r cynllun. Fodd bynnag, nid ydynt yn mesur effaith y gweithgareddau hynny yn ddigon da.

40 Mae grwpiau llywio yn gweithio'n fwyaf effeithiol lle maent yn cynnwys uwch reolwyr ysgol sy'n sicrhau bod y cynllun trosglwyddo yn rhan annatod o gynlluniau datblygu ysgolion. Mae hyn yn digwydd orau lle ceir cysylltiadau sefydledig rhwng y grŵp llywio a'r rhwydweithiau rheoli ym mhob ysgol bartner a'r clwstwr. Yn yr arfer orau, mae datblygiadau trosglwyddo yn eitem reolaidd ar yr agenda yng nghyfarfodydd clwstwr penaethiaid.

41 Mae cydlynydd trosglwyddo dynodedig yn arwain ac yn cydlynu gwaith y rhan fwyaf o'r grwpiau llywio. Mae'r cydlynydd trosglwyddo yn aml, ond nid bob amser, yn uwch reolwr ysgol uwchradd. Mae'r trefniant hwn yn lleihau'r baich ar benaethiaid cynradd, ond o ganlyniad, nid yw ysgolion cynradd bob amser yn bartneriaid llawn a gweithredol. Mae hyn yn golygu nad yw modelau cwricwlwm ysgolion cynradd yn cysylltu'n ddidrafferth â phatrymau cyflwyno'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3.

42 Mewn un clwstwr o ysgolion, hysbysebodd yr ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo swydd cydlynydd trosglwyddo yn y clwstwr i adlewyrchu pwysigrwydd y rôl. Mewn clwstwr arall, mae'r ysgol uwchradd yn ariannu deuddydd yr wythnos i'r cydlynydd trosglwyddo reoli'r cynllun trosglwyddo a chydlynu a monitro gweithgareddau cysylltiedig ar ran y clwstwr. Fodd bynnag, mewn rhai clystyrau, nid yw cydlynwyr trosglwyddo yn cael digon o amser i ymgymryd â'r rôl yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn eu cynlluniau trosglwyddo.

43 Yn y cynlluniau trosglwyddo gorau, mae datganiad clir o rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r broses drosglwyddo. Mae gwneud datganiad o'r fath yn helpu gwneud cynlluniau yn gydlynus ac yn eglur ond nid yw hon yn nodwedd gyffredin yn y rhan fwyaf o'r cynlluniau trosglwyddo.

Cynllunio'r cwricwlwm

44 Er 2002, pan gyhoeddodd Estyn y cyntaf o'r dogfennau 'Anelu at Ragoriaeth', mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo wedi gweithio gyda'i gilydd i wella agweddau ar barhad y cwricwlwm rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Yn fras, mae'r gwaith hwn yn disgyn i dri chategori:

- datblygu cynlluniau gwaith pwnc a fframweithiau i addysgu medrau allweddol sy'n rhychwantu cyfnodau allweddol 2 a 3;
- cynhyrchu unedau pontio i'w defnyddio ar ddiwedd Blwyddyn 6 a dechrau Blwyddyn 7, yn bennaf yn y pynciau craidd; a
- dyfeisio prosiectau cwricwlwm neu unedau gwaith i'w defnyddio ym Mlwyddyn 6 sy'n paratoi disgyblion ar gyfer gwaith ym Mlwyddyn 7.

45 Mae'r gwaith hwn wedi helpu athrawon cynradd ac uwchradd i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r cwricwlwm ar draws y ddau gyfnod allweddol. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion wedi diwygio cynlluniau gwaith i wneud gwaith Blwyddyn 6 yn fwy heriol a dileu'r ailadrodd ym Mlwyddyn 7. Fodd bynnag, mae diffyg her o hyd ym Mlwyddyn 7 mewn rhai pynciau mewn llawer o ysgolion.

46 Mae unedau gwaith a baratowyd ar y cyd wedi bod yn llwyddiannus iawn, yn enwedig unedau ar algebra a thrin data mewn mathemateg ac ymchwiliadau mewn gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg, gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae'r unedau wedi lleihau gwaith athrawon Blwyddyn 6 oherwydd bod gwaith datblygu ac arbenigedd pwnc yn cael ei rannu ar draws ysgolion yn y clwstwr. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr unedau o'r fath yn y pynciau craidd. Dim ond rhai clystyrau sy'n bwriadu ymestyn yr arfer dda hon ym mhob pwnc yn systematig dros y tair blynedd nesaf.

47 Mae rhai ysgolion wedi defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio'r Gronfa Ysgolion Gwell, y grant trosglwyddo neu'r cyllid datblygu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd. Mae'r gwaith mwyaf effeithiol yn adeiladu ar dystiolaeth uniongyrchol o ddulliau addysgu ac enghreifftiau o waith disgyblion.

Astudiaeth achos 2

Prosiectau cwricwlwm ar y cyd

Fe wnaeth un ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo yng ngogledd orllewin Cymru gynnal cynllun peilot o brosiectau cwricwlwm yn 2006-2007 gan ddefnyddio cyllid o'r grant trosglwyddo ac amser y trefnwyd ei fod ar gael yn ystod arholiadau allanol yn nhymor yr haf 2006. Gweithiodd un arbenigwr pwnc uwchradd gyda'r athro Blwyddyn 6 o un o'r chwe ysgol gynradd sy'n bwydo i ddatblygu uned waith ym mhob un o'r meysydd canlynol:

- defnyddio algebra a waliau rhif mewn mathemateg;
- TGCh a dylunio crysau-T;
- celf a dyluno modelau yn arddull arlunydd o Awstria;
- cyflwyniad i Ffrangeg;
- ymchwiliad gwyddonol; ac
- ymchwiliad mathemategol estynedig.

Dechreuodd pob prosiect cwricwlwm gyda diwrnod hyfforddi pan baratôdd yr athrawon cynradd ac uwchradd bedwar cynllun gwers y byddent yn eu haddysgu gyda'i gilydd yn ystod tymor yr haf Blwyddyn 6, yn cynnwys dwy wers yn yr ysgol gynradd a dwy yn yr ysgol uwchradd.

Cafodd y gwaith ei gofnodi'n ofalus a rhannwyd deunyddiau prosiect â phob ysgol yn y clwstwr er mwyn i bob athro Blwyddyn 6 allu eu defnyddio. Mae'r clwstwr yn ailadrodd y gwaith mewn chwe phwnc arall eleni.

Mae'r prosiectau wedi gwella dealltwriaeth athrawon o'r modd y mae disgyblion yn dysgu. O ganlyniad, o fis Medi 2008, nid oes cynlluniau i fabwysiadu addysgu sy'n seiliedig ar thema mewn Saesneg, y celfyddydau mynegiannol a'r dyniaethau ym Mlwyddyn 7 ac mae athrawon cynradd yn bwriadu gwneud ychydig o waith Blwyddyn 7 ym Mlwyddyn 6.

48 Mae cynlluniau trosglwyddo yn rhoi cyfle i adolygu trefniadaeth y cwricwlwm ar gyfer plant 7-14 oed. Fodd bynnag, nifer fach iawn o glystyrau yn unig sydd wedi edrych yn ddigon agos ar faterion ehangach trefniadaeth y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r cynlluniau trosglwyddo yn defnyddio model i gyflwyno'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 sydd wedi'i ymrannu'n ddarnau o hyd o ddysgu'n seiliedig ar bwnc sy'n cael ei addysgu gan wahanol athrawon. Nifer fach iawn o ysgolion uwchradd sydd wedi ystyried cynnig dull mwy integredig ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm sy'n adeiladu ar y ffordd y mae disgyblion yn dysgu yn yr ysgol gynradd.

49 Mae llawer o gynlluniau trosglwyddo yn cyfeirio at yr angen i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm yn fwy cyson, gan adeiladu ar y ffordd y caiff medrau eu haddysgu yn yr ysgolion cynradd. Fodd bynnag, nifer fach o gynlluniau sy'n esbonio'n benodol sut y gellir gwneud hyn, er enghraifft, trwy integreiddio prosiectau thematig ar draws nifer o bynciau fel dull sy'n gallu helpu gwneud dysgu yn llai tameidiog.

50 Mae rhai cynlluniau trosglwyddo yn cynnwys trefniadau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd i ystyried gorchmynion diwygiedig y cwricwlwm cenedlaethol gyda'i gilydd, y fframwaith medrau neu ddogfennau cysylltiedig ar wella dysgu i gyflawni cysondeb o ran dull wrth weithredu gofynion newydd ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3.

Astudiaeth achos 3

Datblygu medrau

Mewn clwstwr yn ne Cymru, mae cynllunio cwricwlwm ar y cyd ar gynlluniau gwaith sy'n rhychwantu cyfnodau allweddol 2 a 3 wedi gwneud i athrawon lunio map medrau sy'n dangos ble a sut bydd medrau yn cael eu haddysgu yn y pynciau craidd ym Mlynyddoedd 5-8. Mae'r clwstwr yn bwriadu ymestyn y gwaith hwn i bob pwnc yn 2008-2009.

Nod y map medrau yw datblygu medrau meddwl, trefnu a dysgu disgyblion yn systematig. Mae pob athro yn gwybod pa fedrau i ganolbwyntio arnynt mewn unedau gwaith ac yn gwybod y dilyniant a ddisgwylir o un flwyddyn i'r llall.

Mae athrawon wedi cyflwyno tasgau mwy heriol mewn cynlluniau gwaith sy'n gwneud i ddisgyblion feddwl yn fwy drostynt eu hunain. Mae'r canlyniadau wedi codi disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei wneud ac wedi cyflym cyfradd cynnydd disgyblion.

Addysgu a dysgu

51 Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau trosglwyddo yn nodi bod angen gwneud addysgu a dysgu yn gyson heriol, yn enwedig rhwng Blynyddoedd 5-8. Y dull mwyaf cyffredin yw defnyddio arsylwadau cymheiriaid lle bynnag y mae athrawon cynradd ac uwchradd yn arsylwi gwersi yn ysgolion ei gilydd. Mae llawer o ysgolion wedi dechrau'r broses ac yn bwriadu ymestyn eu rhaglen o ymweliadau y naill a'r llall. Mae hyn wedi arwain at nifer o fentrau llwyddiannus i wella medrau meddwl generig a dysgu disgyblion.

52 Mae nifer o ysgolion ac AALlau wedi darparu hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer athrawon er mwyn helpu disgyblion i ddeall gwahanol dechnegau dysgu a datblygu medrau meddwl. Mae llawer o gynlluniau trosglwyddo wedi nodi bod angen defnyddio'r technegau hyn yn ehangach ar draws ysgolion ac adrannau i wneud dysgu yn fwy effeithiol. Un o nodweddion allweddol y cynlluniau trosglwyddo gorau yw'r ffaith fod hyfforddiant mewn swydd yn cael ei ddefnyddio ar sail clwstwr er mwyn rhannu a defnyddio technegau addysgu effeithiol yn gyson.

53 Mae arsylwi cymheiriaid hefyd wedi gwneud athrawon yn fwy ymwybodol o anghenion dysgu disgyblion unigol pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw cynlluniau trosglwyddo yn rhoi digon o sylw i anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr. Pan nad yw disgyblion unigol yn cael cynnig y cymorth y mae ei angen arnynt i gael mynediad at gwricwlwm Blwyddyn 7 neu fod y disgyblion mwy abl yn cael gwaith ailadroddus, lefel isel, mae hyn yn arwain at ymddieithrio ac amgyffrediad ymhlith disgyblion nad yw gwersi yn ddefnyddiol nac yn ddiddorol.

Astudiaeth achos 4

Datblygu fframwaith dysgu ac addysgu

Mae pob ysgol mewn un clwstwr yn y Cymoedd wedi ysgrifennu fframwaith dysgu ac addysgu sy'n cynnwys gwaith disgyblion o'r blynyddoedd cynnar i gyfnod allweddol 4.

Mae'r clwstwr yn cynnwys ysgol uwchradd 11-16 sydd ag ychydig llai na 1,000 o ddisgyblion a phedair ysgol gynradd sy'n bwydo.

Roedd y clwstwr eisiau sicrhau bod arfer gyson dda mewn addysgu a dysgu ym mhob un o'i ysgolion. Yn benodol, roedd y clwstwr eisiau cyflymu cynnydd disgyblion pan oeddent yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Arweiniwyd y prosiect gan y cydlynwyr addysgu a dysgu o bob un o'r pum ysgol. Fe wnaethant weithio gydag athrawon o bob ysgol i nodi enghreifftiau o addysgu a dysgu effeithiol a oedd yn effeithio ar ansawdd gwaith disgyblion.

Mae'r fframwaith yn nodi deg nodwedd ar ddysgu effeithiol, gan gynnwys datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh, gan ddefnyddio rheswm a dychymyg i ddatrys problemau, gweithio gydag eraill a deall sut i ddysgu. Disgrifir pob nodwedd o ran yr hyn y dylai dysgwr effeithiol ei gyflawni.

Mae pob cofnod yn y fframwaith yn cynnwys gwybodaeth am:

- gyd-destun y gwaith a'r amcanion dysgu;
- cynllunio a sut y cafodd y wers ei haddysgu; a'r
- canlyniadau dysgu gydag enghreifftiau o waith disgyblion.

Mae'r fframwaith yn cynnwys 33 o astudiaethau achos yn ymdrin â mwyafrif y pynciau yn ogystal â medrau allweddol. Mae adran yn cynnwys y gwaith a wnaeth disgyblion Blwyddyn 6 mewn gwersi yn yr ysgolion uwchradd yn ystod eu hymweliadau sefydlu. Mae adran ar y diwedd yn crynhoi nodweddion addysgu effeithiol.

Mae'r astudiaethau achos yn dangos y safonau y mae disgyblion yn eu cyrraedd mewn gwahanol gyfnodau allweddol yn glir. Gall unrhyw athro sy'n defnyddio'r fframwaith ddeall y lefel y gallant ddisgwyl i ddisgyblion fod yn gweithio arni. Mae hwn wedi bod yn gyfrwng hawdd ei drin i gyfleu safonau gwaith yng nghyfnod allweddol 2 i athrawon cyfnod allweddol 3, yn ogystal â dangos i athrawon cynradd sut y gallant baratoi disgyblion ar gyfer gwaith ym Mlwyddyn 7.

Mae'r fframwaith addysgu a dysgu wedi bod yn gyfrwng effeithiol ar gyfer rhannu dulliau addysgu effeithiol a chodi disgwyliadau o ran cyflawniad disgyblion.

Asesu, monitro ac olrhain

54 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi dechrau asesu a safoni gwaith disgyblion gyda'i gilydd mewn un neu fwy o'r pynciau craidd, ond nid yw mwyafrif y cynlluniau trosglwyddo yn dangos sut bydd yr arfer effeithiol hon yn cael ei hymestyn yn unol â chyflwyno gofynion statudol yn ystod 2008-2010.

55 Mae llawer o glystyrau wedi dechrau cynhyrchu portffolios o waith disgyblion sy'n rhoi enghreifftiau o gyflawniad ar wahanol lefelau yn y pynciau craidd. Yn y clystyrau hyn, mae tystiolaeth uniongyrchol o waith gorau disgyblion Blwyddyn 6 yn codi disgwyliadau athrawon o'r hyn y dylai disgyblion ei gyflawni ym Mlwyddyn 7. Mae hefyd wedi helpu'r ysgol uwchradd i nodi'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar rai disgyblion, er enghraifft, i wella ysgrifennu.

56 Yn benodol, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn bwriadu gwneud asesu yn fwy cyson ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3 trwy sicrhau bod athrawon yn rhannu amcanion a meini prawf asesu er mwyn i ddisgyblion allu asesu eu cynnydd eu hunain, a gwybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y dylent ei wneud i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau trosglwyddo yn cynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddiant ar y cyd i sicrhau dull cyffredin ar gyfer defnyddio asesu ar gyfer dysgu.

57 Mae gan bron bob clwstwr systemau da i drosglwyddo data asesu ac mae rhai AALlau yn ymgymryd â dadansoddiadau manwl o gyrhaeddiad er mwyn helpu ysgolion i olrhain cynnydd disgyblion a gosod targedau. Mae'r agwedd hon ar gynlluniau trosglwyddo yn aml yn dda iawn. Mae gan un AALlau brosiect uchelgeisiol er mwyn galluogi ysgolion i drosglwyddo'r holl wybodaeth, gan gynnwys portffolios wedi'u safoni o waith disgyblion, yn electronig.

58 Mae pob ysgol uwchradd yn defnyddio ystod dda o ddata i olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw llawer o ysgolion ac adrannau yn dadansoddi nac yn ei ddefnyddio i gynllunio ymyriad a chymorth amserol ar gyfer disgyblion y mae eu cynnydd weithiau'n rhy araf, er enghraifft, bechgyn llai abl, neu ddisgyblion mwy abl a dawnus. Nid yw cynlluniau trosglwyddo yn rhoi digon o sylw i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd yn y deuddeg mis ar ôl iddynt symud o'r ysgol gynradd.

Astudiaeth achos 5

Trefniadau effeithiol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd

Mae clwstwr o ysgolion yng ngogledd Cymru wedi mireinio a ffurfioli ei threfniadau ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd.

Mae ysgolion cynradd yn trosglwyddo data ar gyfer pob disgybl i'r ysgol uwchradd yn electronig. Mae'r data hwn yn cynnwys oedrannau darllen a sillafu, cyrhaeddiad yn ôl targed cyrhaeddiad ym mhynciau craidd y cwricwlwm cenedlaethol a chopi o adroddiad Blwyddyn 6.

Rhoddir y data hwn i benaethiaid adran, tiwtoriaid Blwyddyn 7 ac athrawon pwnc. Mae'r ysgol uwchradd yn monitro ac yn olrhain cynnydd disgyblion ddwywaith y flwyddyn trwy gydol cyfnod allweddol 3 gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth, gan gynnwys graddau cyflawniad, adroddiadau cynnydd a samplau o waith disgyblion. Caiff yr ysgol gynradd gopïau o adroddiadau cynnydd disgyblion Blwyddyn 7.

Mae gan y clwstwr gynlluniau da i arfarnu pa mor dda y mae'r system yn cefnogi disgyblion unigol. Mae hefyd yn gosod targedau i 65% o ddisgyblion Blwyddyn 7 gyflawni o leiaf lefel 5 ym mhob un o'r pynciau craidd yn 2008. Mae data cyrhaeddiad blaenorol yn darparu tystiolaeth bod hyn yn heriol ond yn gyflawnadwy.

Arfarnu effaith cynlluniau trosglwyddo

59 Mae pob cynllun trosglwyddo yn datgan pryd fydd y cynllun yn cael ei adolygu a chan bwy. Mae trefniadau da i fonitro mentrau gwella ond nifer fach o drefniadau ynglŷn â'r modd y mae clystyrau yn arfarnu eu heffaith o ran canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr. Mae hyn yn ddiffyg difrifol ym mwyafrif y cynlluniau trosglwyddo.

60 Dim ond rhai grwpiau llywio sydd wedi defnyddio'r rhestrau gwirio yn Atodiad 2 Arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hunanadolygiad trylwyr wrth lunio eu cynllun trosglwyddo. Yn y rhan fwyaf o'r cynlluniau trosglwyddo, mae meini prawf llwyddo yn cyfeirio at gwblhau gweithgareddau a gynlluniwyd yn hytrach nag at eu heffaith ar ansawdd dysgu neu gynnydd a safonau disgyblion. Nid yw ysgolion wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r math o wybodaeth y bydd angen iddynt ei chasglu er mwyn gallu arfarnu effeithiolrwydd ac effaith y cynlluniau trosglwyddo.

61 Mae rhai cynlluniau trosglwyddo yn datgan yn glir mai eu diben yw gwella ansawdd dysgu a chynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys amcanion a cherrig milltir penodol ar gyfer arfarnu effaith y cynllun. Mae amserlen o adolygiadau ac mae'r meini prawf arfarnu yn cynnwys camau a thargedau mesuradwy.

Agweddau dewisol ar gynllunio trosglwyddo

62 Er nad yw'r agweddau canlynol ar drosglwyddo yn rhan statudol o gynlluniau trosglwyddo, mae pob un o'r clystyrau yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn wedi cynnwys yr agweddau hyn yn eu cynlluniau trosglwyddo oherwydd eu bod yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer lles a chynnydd dysgwyr.

Cysylltiadau bugeiliol i fodloni anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion

63 Yn ogystal â threfniadau sefydledig i helpu disgyblion i deimlo'n hyderus pan fyddant yn newid ysgol, mae llawer o glystyrau wedi gwneud rhagor o welliannau i fodloni anghenion cymdeithasol a dysgu disgyblion. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys:

- cyfnodau sefydlu estynedig yn yr ysgol uwchradd yn ystod Blwyddyn 6, gan gynnwys gwersi pwnc a gweithgareddau i ddatblygu medrau cymdeithasol a datrys problemau disgyblion;
- paru disgyblion â disgyblion hŷn fel 'cyfeillion' neu 'fentoriaid' er mwyn eu helpu i ddeall disgwyliadau ac arferion yr ysgol, ac mewn rhai achosion, cefnogi eu dysgu; a
- defnyddio offer fel cynllunwyr dyddiadur ym Mlwyddyn 6 er mwyn helpu disgyblion i wella eu medrau trefnu yn barod ar gyfer Blwyddyn 7.

Rhannu gwybodaeth am ddisgyblion

64 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn ffurfioli'r gwahanol ffyrdd y maent yn rhannu gwybodaeth â'r ysgol uwchradd am gyflawniadau, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ffurflenni i ddod â gwybodaeth at ei gilydd sy'n helpu athrawon uwchradd i ddod i adnabod disgyblion yn gyflym a rhoi cymorth cynnar i ddisgyblion sydd mewn perygl o beidio â throsglwyddo'n llwyddiannus i'w hysgol newydd. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn cyfrannu at y broses hon trwy broffiliau personol sy'n cynnwys eu cofnodion cynnydd a'u targedau ar gyfer Blwyddyn 7.

65 Mae rhai AALlau wedi gwella eu cymorth ar gyfer ysgolion i wella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau. Mae swyddogion lles addysg, seicolegwyr addysg a thimau cymorth dysgu ac ymddygiad yn gweithio gyda'i gilydd yn agosach fel timau integredig mewn clystyrau ac yn dod i adnabod disgyblion a'u hanghenion yn dda. Mae rhai clystyrau wedi datblygu polisi rheoli ymddygiad ar y cyd. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Astudiaeth achos 6

Rhannu proffiliau disgyblion a manylion am eu hanghenion dysgu unigol

Mewn un ysgol gyfun fawr, mae ysgolion cynradd yn anfon proffiliau'r disgyblion eu hunain i'r ysgol uwchradd yn ystod tymor yr haf cyn y rhaglen sefydlu. Caiff copïau o adroddiadau Blwyddyn 6 a data ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad eu hanfon yn electronig, gan gynnwys cynlluniau dysgu unigol a manylion am dueddfryd mewn gweithgareddau allgyrsiol. Rhoddir gwybodaeth hefyd am safonau ac anghenion disgyblion y mae Saesneg yn ail iaith iddynt. Mae'r wybodaeth hon yn darparu gwaelodlin ar gyfer adolygiad cynnydd cyntaf disgyblion yn ystod tymor yr hydref ym Mlwyddyn 7.

Mae'r broses o rannu gwybodaeth wedi dod yn fwy cyson a systematig.

Cyfathrebu anghenion dysgu disgyblion

66 Yn eu cynlluniau trosglwyddo, mae rhai clystyrau yn rhoi sylw i wella'r modd y maent yn bodloni anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae bron pob ysgol gynradd yn rhoi gwybodaeth dda iawn am anghenion dysgu ychwanegol disgyblion fel bod eu hanghenion fel arfer yn cael eu bodloni'n dda iawn yn yr ysgol uwchradd. Fodd bynnag, nifer fach o gynlluniau trosglwyddo sy'n nodi'n benodol sut maent yn nodi ac yn bodloni anghenion disgyblion mwy abl a dawnus neu ddisgyblion sydd ag anawsterau â medrau sylfaenol, yn enwedig bechgyn.[4] Nifer fach iawn o gynlluniau trosglwyddo sy'n dangos sut bydd yr ysgol uwchradd yn parhau i roi cymorth lle bydd angen ar gyfer disgyblion sydd wedi cael cymorth ychwanegol yn yr ysgolion cynradd trwy raglenni a ariennir gan RHAGORI.

Sicrhau parhad mewn Cymraeg

67 Caiff ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg wybodaeth dda am gyrhaeddiad disgyblion Blwyddyn 6 mewn Cymraeg fel pwnc craidd. Mae rhai ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan yn rhaglen beilot trochi yn y Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn darparu rhaglenni 'trochi' sydd wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mae un ysgol uwchradd yng ngogledd Cymru yn darparu rhaglen drochi chwe wythnos ar gyfer y disgyblion yn ystod tymor yr haf Blwyddyn 6. Mae hyn yn eu paratoi yn dda ar gyfer dysgu'r holl bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlwyddyn 7.

68 Lleiafrif o gynlluniau trosglwyddo yn unig sy'n cynnwys manylion am drefniadau ysgolion i wella parhad ieithyddol mewn Cymraeg fel ail iaith pan fydd disgyblion yn symud i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. O ganlyniad, nid yw llawer o'r ysgolion hyn yn gwybod digon am hyder disgyblion yn y Gymraeg i sicrhau bod yr addysgu yn cael ei anelu at y lefel gywir ym Mlwyddyn 7. Gall hyn arwain at waith ailadroddus a

[4] Mae'r adran ar drosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 yng nghyhoeddiad Estyn, 'Arfer Orau yng ngwaith darllen ac ysgrifennu disgyblion rhwng 7 ac 14 oed', Mawrth 2008, yn rhoi rhagor o wybodaeth am hyn.

lefel isel y mae disgyblion yn ei weld yn ddiflas. Mae trefniadau i rannu gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg fel arfer yn fwyaf effeithiol lle mae timau athrawon bro yn addysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.

Trefniadau trosglwyddo o ysgolion cynradd sy'n bwydo nad ydynt yn rhai dynodedig

69 Mae nifer fach o ysgolion mewn categorïau penodol wedi'u heithrio o'r gofyniad statudol i lunio cynllun trosglwyddo. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion cynradd sydd â chysylltiadau â nifer o ysgolion uwchradd a lle mae llai na 50% o ddisgyblion yn trosglwyddo i un ysgol. Lle mae cyfanswm o 50 neu lai o ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol sydd â disgyblion cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, a 32 neu lai o ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol sydd â disgyblion cyfnod allweddol 2 yn unig, nid yw'n ofynnol i ysgolion felly lunio cynllun trosglwyddo. Yn ychwanegol, mae nifer sylweddol o ysgolion uwchradd yng Nghymru yn cymryd disgyblion o ysgolion cynradd mewn siroedd cyfagos yn Lloegr. Mewn rhai achosion, gall nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd yng Nghymru gyfrif am hyd at draean o'r garfan Blwyddyn 7. Gallai rhai ysgolion uwchradd dderbyn disgyblion o gynifer â 15 neu fwy o ysgolion cynradd sy'n bwydo mewn unrhyw flwyddyn unigol.

70 Yn ymarferol, mae bron pob ysgol uwchradd yn gweithio mor agos ag y bo modd ag ysgolion sy'n bwydo nad ydynt yn rhai dynodedig. Mae'r graddau y gwnânt hyn yn dibynnu ar adnoddau, ond caiff y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd ystod dda o wybodaeth am ddisgyblion ac maent yn ymweld â'r holl ysgolion cynradd sy'n eu bwydo lle bo modd. Mae rhai cydlynwyr trosglwyddo yn sicrhau bod ysgolion cynradd sy'n bwydo nad ydynt yn rhai dynodedig yn cael copi o gynllun trosglwyddo'r clwstwr a gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau trosglwyddo, gan gynnwys copïau o brosiectau pontio a gwahoddiadau i hyfforddiant mewn swydd perthnasol a chyfarfodydd penaethiaid. Mae bron pob ysgol uwchradd yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 6 o bob ysgol gynradd sy'n ei bwydo a'u rhieni mewn rhaglenni sefydlu.

Effaith cynlluniau trosglwyddo

71 Mae effaith y cynlluniau trosglwyddo er mis Medi 2007 yn amrywio yn ôl faint o waith y mae clystyrau o ysgolion eisoes wedi'i wneud cyn i gynlluniau trosglwyddo ddod yn ofyniad statudol. Mewn clystyrau lle mae ysgolion eisoes wedi gweithio gyda'i gilydd i wella cynnydd disgyblion yng nghyfnod allweddol 3, gan ddefnyddio arweiniad yn y cyhoeddiadau Anelu at Ragoriaeth, mae llawer o welliannau eisoes ar waith a cheir tystiolaeth[5] o'u heffaith gadarnhaol ar gynnydd a safonau disgyblion.

72 Mae cynlluniau trosglwyddo statudol wedi rhoi blaenoriaeth uwch i drosglwyddo a chynllunio strategol ar gyfer gwella. Mae'r broses o lunio'r cynllun trosglwyddo wedi bod yn gatalydd ar gyfer dod â mentrau trosglwyddo ar wahân at ei gilydd sydd â nodau tebyg. Fodd bynnag, megis dechrau y mae rhai clystyrau wrth wella trosglwyddo ac nid oes modd arfarnu effaith benodol y cynlluniau trosglwyddo eto oherwydd bod y garfan gyntaf o ddisgyblion y mae'r rheoliadau trosglwyddo yn berthnasol iddynt yn dal i fod ym Mlwyddyn 6.

73 O ganlyniad i arsylwi gwersi yn ysgolion ei gilydd a gweithio gyda'i gilydd ar brosiectau cwricwlwm ac asesu ar y cyd, mae ansawdd yr addysgu yn gwella. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ysgolion sy'n cynllunio newidiadau sylweddol neu arloesol i'r modd y caiff y cwricwlwm ei drefnu ym Mlwyddyn 7 o ganlyniad i arsylwi cymheiriaid neu drefniadau cynllunio ar y cyd.

74 Er bod y rhan fwyaf o glystyrau wedi ymrwymo i wella ansawdd a dibynadwyedd asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r cyfleoedd ar gyfer safoni rhwng ysgolion yn amrywio gormod. Mae gan rai AALlau strategaethau i sicrhau cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon ar draws eu hysgolion cynradd.

[5] Mae Adolygiad Estyn 'Adolygu Cyfraniad y rhaglen Anelu at Ragoriaeth at godi safonau yng nghyfnod allweddol 3', Tachwedd 2006, yn rhoi arfarniad ystadegol o effaith y rhaglen Anelu at Ragoriaeth ar brofiadau dysgu disgyblion ac ar safonau cyflawniad yng nghyfnod allweddol 3.

Cymorth awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio trosglwyddo

75 Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol yn cefnogi trosglwyddo effeithiol fel rhan o'u strategaethau gwella ysgolion. Mae'n ofynnol i ysgolion anfon copïau o gynlluniau trosglwyddo i'w AALl. Awgrymodd yr 'Arweiniad ar baratoi cynlluniau trosglwyddo cyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3' y dylai AALlau gael y cyfle i roi sylwadau ar gynlluniau trosglwyddo wrth iddynt gael eu datblygu.

76 Nid yw trefniadau AALl i helpu ysgolion i wella trosglwyddo yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws pob awdurdod. Mae gan y rhan fwyaf o AALlau ddealltwriaeth dda o gynlluniau trosglwyddo eu hysgolion, ond mae'r cymorth a ddarperir gan AALlau yn amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, darparodd rhai awdurdodau ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth ysgogol i lansio'r Arweiniad ac mae ganddynt strategaeth glir i wella trosglwyddo y cytunwyd arni gydag ysgolion. Mewn awdurdodau eraill, mae ysgolion wedi llunio cynlluniau trosglwyddo ar eu pen eu hunain ac yn cael cymorth AALl ar gais. Mewn rhai awdurdodau, nid yw ysgolion wedi cael digon o gymorth. Gyda rhai eithriadau, nid yw AALlau yn monitro'r broses o gynllunio trosglwyddo na chanlyniadau yn ddigon trylwyr.

77 Mae llawer o ysgolion yn ansicr ynglŷn â chyllid ar gyfer gwaith trosglwyddo yn y tymor byr a'r tymor hir. Mewn llawer o awdurdodau, mae diffyg eglurder a thryloywder ynglŷn â'r cyllid sydd ar gael i ysgolion ar gyfer mentrau trosglwyddo. Mae rhai awdurdodau wedi defnyddio'r grant trosglwyddo i ariannu mentrau ledled y sir fel systemau electronig ar gyfer rhoi gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion a samplau o waith disgyblion. Mae AALlau eraill wedi gofyn i ysgolion wneud cynnig am grant trosglwyddo ar gyfer prosiectau arloesol. Mae eraill wedi dosbarthu'r grant trosglwyddo i glystyrau o ysgolion roi cynlluniau trosglwyddo ar waith, gan roi'r un maint o gyllid weithiau, ni waeth beth yw nifer a maint yr ysgolion ym mhob clwstwr. Yn sgil y cyhoeddiad hwyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn hydref 2006 am y grant trosglwyddo sydd ar gael ar gyfer 2006-2007, roedd rhai AALlau ac ysgolion yn hwyr yn dechrau mentrau trosglwyddo. Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn defnyddio'r Gronfa Ysgolion Gwell, y grant trosglwyddo neu'r cyllid datblygu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i ariannu gwaith trosglwyddo, ond mae mwyafrif y clystyrau yn ansicr ynglŷn â sut byddant yn ariannu gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn olaf y cynllun trosglwyddo cyfredol yn 2009-2010. Mae angen cyllid yn y Gronfa Ysgolion Gwell yn 2009-2010 i gynnal y momentwm i wella trosglwyddo pan ddaw'r grant trosglwyddo i ben yn 2009.

78 Mae gan rai AALlau bolisïau ac arfer sydd wedi'u datblygu'n dda iawn ar gyfer gwella trosglwyddo.

Astudiaeth achos 7

Cymorth effeithiol gan AALl ar gyfer clystyrau sy'n datblygu cynlluniau trosglwyddo

Mewn un AALl yng ngogledd Cymru, mae uwch ymgynghorydd, sy'n cael ei gefnogi gan athro ymgynghorol, yn gyfrifol am drosglwyddo fel rhan o'i waith i helpu ysgolion i wella dysgu a chodi safonau yng nghyfnod allweddol 3.

Mae'r AALl wedi rhoi arweiniad o ansawdd uchel i ysgolion ar gynllunio trosglwyddo sy'n cysylltu'n agos â mentrau gwella ysgolion cenedlaethol a lleol, fel RHAGORI, gorchmynion diwygiedig y cwricwlwm cenedlaethol, gwella addysgu a dysgu, asesu ar draws sectorau a safoni gwaith disgyblion a phrosiectau 'asesu ar gyfer dysgu'.

Mae'r ymgynghorydd a'r athro ymgynghorol yn cefnogi cydlynwyr trosglwyddo yn dda ac yn mynychu cyfarfodydd grwpiau llywio'r clwstwr i fonitro datblygiadau. Maent yn cyfarfod pob un o'r cydlynwyr trosglwyddo bedair gwaith y flwyddyn. Yn y cyfarfodydd hyn, mae cydlynwyr trosglwyddo yn adolygu mentrau trosglwyddo ac mae staff yr AALl yn rhannu canfyddiadau o'u hymweliadau monitro. Mae'r awdurdod yn darparu deunyddiau y gall cydlynwyr trosglwyddo eu defnyddio yn eu clystyrau, gan gynnwys crynodeb o ddatblygiadau trosglwyddo yn yr AALl yn gyffredinol. Mae'r trefniadau cynllunio ac ariannu yn dryloyw ac mae pawb yn eu deall.

O ganlyniad i'r monitro, tynnodd yr AALl sylw ysgolion at y ffaith fod angen rhoi mwy o sylw i fonitro effaith y mentrau. Lluniodd yr AALl holiadur i ysgolion ei ddefnyddio gyda disgyblion Blwyddyn 7 ar eu hamgyffrediad o her y gwaith ym Mlwyddyn 7 a materion eraill yn ymwneud â throsglwyddo, ac fe wnaethant gasglu a dadansoddi'r ymatebion ar gyfer ysgolion. Rhoddodd y canfyddiadau adborth defnyddiol iawn gan ddysgwyr nad oedd i ryw raddau'n cyd-fynd ag amgyffrediad ysgolion. O ganlyniad, mae cydlynwyr trosglwyddo wedi diwygio eu cynllunio trosglwyddo i ganolbwyntio ar wella addysgu a safonau. Roedd yr ysgol yn gweld yr ymarfer yn ddefnyddiol iawn ac maent yn bwriadu defnyddio'r arolwg o amgyffrediad disgyblion bob blwyddyn fel ffordd o arfarnu gwelliant dros gyfnod.

Cynnwys disgyblion, rhieni a llywodraethwyr

79 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gofyn i ddisgyblion am eu barn ar ôl cynnal digwyddiadau fel diwrnodau sefydlu. Nifer fach iawn o ysgolion yn unig sydd wedi gofyn i gyngor yr ysgol a disgyblion eraill am eu barn ar drosglwyddo a sut y gellid ei wella.

Astudiaeth achos 8

Ymgynghori â disgyblion ynglŷn â throsglwyddo

Mewn clwstwr yn ne Cymru, trefnodd penaethiaid ddiwrnod i'r holl gynrychiolwyr cyngor ysgol o Flynyddoedd 5 i 11 ym mhump ysgol y clwstwr ddod at ei gilydd i drafod trosglwyddo. Rhoddwyd llawer o gyhoeddusrwydd i'r digwyddiad ac fe'i cynhaliwyd mewn canolfan gynadledda allan o'r ysgolion.

Fe wnaeth yr Aelod Cynulliad lleol, swyddog cyfranogi'r awdurdod lleol o'r Bartneriaeth Pobl Ifanc a phum pennaeth fynychu fel arsylwyr. Cafodd y gweithrediadau eu cynllunio a'u trefnu gan y disgyblion. Enwebwyd disgybl gan bob ysgol i arwain trefnu'r diwrnod.

Gweithiodd y disgyblion mewn grwpiau i drafod ystod o faterion sy'n peri pryder iddynt pan fyddant yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Cofnodwyd y materion hyn ac yna cawsant eu cynnwys yng nghynllun trosglwyddo'r clwstwr.

Mae'r clwstwr yn bwriadu trefnu fforwm trosglwyddo tebyg bob blwyddyn i adolygu datblygiadau. Bydd y fforwm nesaf yn cael ei gynnal yn y Senedd yng Nghaerdydd.

80 Nifer fach iawn o grwpiau llywio trosglwyddo sy'n cynnwys rhieni. Mae ysgolion yn defnyddio holiaduron yn gynyddol i ofyn barn rhieni ac maent yn dechrau defnyddio ymatebion i wneud newidiadau pwysig. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn cyflwyno noson rieni yn ystod tymor yr hydref Blwyddyn 7 i roi cyfle cynnar i drafod cynnydd disgyblion yn eu hysgol newydd. Mae rhai grwpiau llywio yn bwriadu cynnwys rhieni yn eu harfarniad blynyddol o'r cynllun trosglwyddo ac mae rhai ysgolion wedi rhoi gwybodaeth i rieni am y cynllun mewn cylchlythyrau neu eu prosbectws ysgol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw ysgolion wedi ymgynghori â rhieni am drosglwyddo yn ddigon cynnar neu mewn ffordd sy'n eu galluogi i ddylanwadu ar y cynllun trosglwyddo.

81 Mae rhai grwpiau llywio trosglwyddo yn cynnwys llywodraethwr o un o'r ysgolion partner. Mae rhai ysgolion yn cynnwys llywodraethwyr mewn gweithgareddau trosglwyddo. Er bod rhai grwpiau llywio yn bwriadu cynnwys llywodraethwr o bob ysgol mewn adolygiad blynyddol o'r cynllun trosglwyddo, yn y rhan fwyaf o achosion, nid oeddent yn cynnwys llywodraethwyr yn y broses o'i lunio. Mae llawer o gyrff llywodraethol wedi cymeradwyo cynllun trosglwyddo eu clwstwr ond nid yw'r rhan fwyaf yn ddigon gwybodus i fonitro sut y caiff ei weithredu.

Astudiaeth achos 9

Cyfranogiad llywodraethwyr mewn cynlluniau trosglwyddo

Mewn un ysgol uwchradd fawr yn ne Cymru, mae'r corff llywodraethol yn cymryd rhan yn y broses o lunio a monitro'r cynllun trosglwyddo trwy waith is-grŵp. Mae gan y grŵp hwn ddealltwriaeth dda iawn o'r cynllun a'r gweithgareddau i wella trosglwyddo.

Mae llywodraethwyr yn mynychu gweithgareddau trosglwyddo fel prosiectau cwricwlwm ar draws sectorau, gweithgareddau sefydlu a chyfarfodydd ar gyfer rhieni cyn ac ar ôl i ddisgyblion drosglwyddo ysgolion. Trwy siarad â staff, rhieni a disgyblion, maent yn monitro gwelliannau mewn trefniadau trosglwyddo.

Mae aelodau yn rhoi adborth llafar rheolaidd i'r corff llywodraethol ac adroddiad ysgrifenedig blynyddol. O ganlyniad i lwyddiant y cynlluniau peilot, mae'r corff llywodraethol wedi cymeradwyo cyllid ychwanegol ar gyfer newidiadau i'r cwricwlwm ym Mlwyddyn 7 ac ymestyn mentrau'r cwricwlwm mewn TGCh.

Barn disgyblion ar drosglwyddo

82 Yn ystod ein hymweliadau ag wyth ysgol uwchradd, fe wnaethom ofyn i sampl o ryw 12 o ddisgyblion Blwyddyn 7 ym mhob ysgol pa agweddau ar drosglwyddo oedd yn fuddiol yn eu barn nhw a pha agweddau fyddent yn hoffi eu gweld yn cael eu gwella. Dyma grynodeb o'u hymatebion:

83 Mae disgyblion Blwyddyn 7:

- yn meddwl bod athrawon a gweithgareddau trosglwyddo yn eu paratoi yn dda ar gyfer Blwyddyn 7;
- yn mwynhau cyfnodau sefydlu yn yr ysgol uwchradd yn ystod Blwyddyn 6 oherwydd eu bod yn cael profiad o waith newydd;
- yn gweld prosiectau trosglwyddo yn ystod tymor yr haf ym Mlwyddyn 6 yn ddiddorol ac yn heriol;
- yn hoff iawn o gael eu paru â disgyblion hŷn fel 'cyfeillion' neu fentoriaid oherwydd eu bod yn helpu ag ystod o agweddau academaidd a chymdeithasol; ac
- yn ystyried cynllunwyr dyddiadur yn ddefnyddiol fel offer trefniadol ac yr hoffent eu cael ym Mlwyddyn 6 hefyd.

84 Nid yw disgyblion Blwyddyn 7 yn hoffi:

- amrywiadau yn nisgwyliadau athrawon ohonynt; a
- gwneud gwaith hawdd neu waith y maent wedi'i wneud o'r blaen. Mae hyn yn digwydd mewn rhai pynciau ym mhob ysgol ac yn enwedig mewn TGCh.

85 Mewn rhai ysgolion, nid yw disgyblion Blwyddyn 7 yn hoffi:

- prosiectau pontio nad yw athrawon yn eu cwblhau ym Mlwyddyn 7 oherwydd nad yw disgyblion o rai o'r ysgolion bwydo wedi gwneud rhan gyntaf y gwaith ym Mlwyddyn 6; a
- gwaith cartref yn ystod gwyliau'r haf cyn iddynt fynd i'r ysgol uwchradd oherwydd nad yw rhai athrawon yn edrych arno ym Mlwyddyn 7.

86 Mae'r ymatebion hyn yn dangos bod llawer o fentrau trosglwyddo yn gwella ansawdd profiadau dysgu disgyblion ond bod arfer yn parhau yn amrywiol.